GB 0219 XM9727

# Gwynedd Archives, Caernarfon Record Office

**This catalogue was digitised by The National Archives as part of the National Register of Archives digitisation project**

NRA 39409

The National Archives

# PAPURAU MERCHED Y WAWR, ARFON

# PAPERS OF MERCHED Y WAWR, ARFON

Marc Catalog:
XM9727
Catalogue Mark:

Archifdy Rhanbarthol Caernarfon
Gwasanaeth Archifau ac Amgueddfeydd Gwynedd

Caernarfon area Record Office
Gwynedd Archives and Museums Service

1996

| | | |
|---|---|---|
| XM9727/1 | d.d. | CYFANSODDIAD MERCHED Y WAWR: nodiadau [teipiedig] ar gyfansoddiad y Mudiad. Awgrymiadau, newidiadau wedi'n 'sgwennu i mewn ar ochr y tudalennau. |
| XM9727/2 | d.d. | CANLLAWIAU: i sefydlu Is-bwyllgorau Rhanbarthol o fewn i Fudiad Merched y Wawr. Rhestrir 7 argymhelliad. |
| XM9727/3 | 1968 | COFNODION: Cangen Merched y Wawr, Pentir, yn rhoi crynodeb o'u gweithgareddau, ac yn enwi'r aelodau. |
| XM9727/4 | 1968-1973 | COFNODION: Pwyllgor Rhanbarth Arfon o Ferched y Wawr.<br><br><u>Cysylltwyd</u>:<br><br>TORIADAU o bapurau newydd, ac yn rhestru swyddogion cyntaf y rhanbarth. |
| XM9727/5 | 1969 | COFNODION: Cangen Merched y Wawr, Pentir, yn rhoi crynodeb o'u gweithgareddau a rhestr o'r aelodau. |
| XM9727/6 | d.d. | COFNODION: Pwyllgor Sir Gwynedd, Mrs Ifanwy Williams yn y gadair.<br>Gwyl Wanwyn i'w chynnal ym Mhlas Menai dan y teitl "Awyr Iach." |
| XM9727/7 | 1973-1985 | COFNODION: Pwyllgor Sir Gaernarfon o Ferched y Wawr yn cynnwys rhan o lythyr Zonia Bowen, Mai 1970.<br><br><u>Glynnwyd</u>:<br><br>TORIAD o bapur newydd yn rhoi adroddiad o farwolaeth Mrs Laura Humphreys Jones, Cae Cristo, Caernarfon. |
| XM9727/8 | d.d. | NODIADAU: Is-bwyllgor Anabl Arfon yn rhestru digwyddiadau i geisio codi arian i'r anabl. |
| XM9727/9 | 1980-1981 | COFNODION: Cangen Merched y Wawr, Carmel yn cofnodi eu gweithgareddau. |

| | | |
|---|---|---|
| XM9727/10 | 1982-1990 | COFNODION: Cyngor Cenedlaethol, Pwyllgor Gwaith ac Is-bwyllgor Celf a Chrefft. |
| XM9727/11 | 1984-1985 | COFNODION: Cangen Merched y Wawr Carmel yn cofnodi eu gweithgareddau. |
| XM9727/12 | 1985-1989 | COFNODION: Merched y Wawr, Rhanbarth Arfon. |
| XM9727/13 | 1986 Mai 6 | COFNODION: Is-bwyllgor Cenedlaethol Celf a Chrefft Merched y Wawr a gynhaliwyd yng Ngholeg y Llyfrgellwyr, Llanbadarn. |
| XM9727/14 | 1986-1988 | BWNDEL O GOFNODION: Pwyllgor Rhanbarth Arfon o Ferched y Wawr. |
| XM9727/15 | 1986-1988 | BWNDEL O GOFNODION AC AGENDA y Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor Cenedlaethol. |
| XM9727/16 | 1987 | LLYFRYN: Llawlyfr Canllawiau Merched y Wawr. Cyfansoddiad y Mudiad gosod allan y canllawiau ar gyfer swyddogion rhanbarthau a canghennau. |
| XM9727/17 | 1987 Ion. 29 | CYNNIG: Cangen Merched y Wawr Bethesda yn cyflwyno cynnig i Bwyllgor Cenedlaethol y Mudiad y.a. chael gwell darpariaeth feddygol ar gyfer profion cancer y fron. |
| XM9727/18 | 1987 | COFNODION: Is-bwyllgor Chwaraeon Cenedlaethol Merched y Wawr yn gosod allan rhai rheolau a threfniadau. Wedi derbyn £300 o rodd gan y Pwyllgor Gwaith Cenedlaethol.<br>Dyddiad y pwyllgor nesaf 5 Medi 1987. |
| XM9727/19 | 1987 Medi 5 | COFNODION: Is-bwyllgor Celf a Chrefft Merched y Wawr yng Ngoleg y Llyfrgellwyr, Llanbadarn Fawr. |
| XM9727/20 | 1988 Chwef. 2 | COFNODION: Pwyllgor Ymgynghorol Heddlu Gwynedd. Ail ethol y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd. Ymweliadau a gorsafoedd Heddlu. Arhoddiadau ynglyn ag |

| | | |
|---|---|---|
| | | ymosodiadau ay yr Heddlu a'r Cyhoedd. Dau lyfryn wedi eu cynhyrchu, "Violent Crime" a "Positive Steps". Crynodeb o nod yr Heddlu am y flwyddyn ddilynol. |
| XM9727/21 | 1988 Chwef. 6 | COFNODION: Is-bwyllgor Celf a Chrefft Merched y Wawr yng Ngholeg y Llyfrgellwyr, Llanbadarn Fawr. |
| XM9727/22 | 1988 Mawrth 27 | COFNODION: Is-bwyllgor Iechyd cyntaf Merched y Wawr a gynhaliwyd yng Ngwesty'r Richmond Aberystwyth. Dewisiwyd swyddogion a rhestrwyd enwau'r cynrychiolwyr o'r gwahanol ranbarthau. |
| XM9727/23 | 1989 | COFNODION: Merched y Wawr, Rhanbarth Arfon. |
| XM9727/24 | 1986 Awst 31 | CYFRIFON: Mudiad Merched y Wawr am y deuddeg mis.<br>Cyfrifwyd, Mr Dennis Jones, Ruthin, Clwyd. |
| XM9727/25 | 1987 | CYFRIFON: Merched y Wawr am y deuddeg mis i Awst 31ain 1987. |
| XM9727/26 | 1987 Awst 31 | CYFRIFON: Mudiad Merched y Wawr am y deuddeg mis. Cyfrifydd, Mr Dennis Jones, Ruthin, Clwyd. |
| XM9727/27 | d.d. | PECYN: Mantolenni ariannol o wahanol weithgareddau Merched y Wawr, derbyniadau a thaliadau. Mewn llawysgrifen. |
| XM9727/28 | 1977 Meh. 16 | LLYTHYR: Heulwen Evans, Ysgrifenyddes Cangen Merched y Wawr, Pentir at Miss Glesni Williams, Ysgrifennyddes Rhanbarth Arfon yn mynegu fod Cangen Pentir wedi gorfod dirwyn i ben, yn bennaf oherwydd lleihad yn yr aelodau. Pwysleisio nad oes neb wedi cefnu ar y mudiad, a'i bod yn fwriad ganddynt i ymaelodi â changhennau eraill. |
| XM9727/29 | 1983 Chwef. 8 | LLYTHYR: Rhif 10 Stryd Downing, Llundain at Mrs M.E. Roberts, Rhoshyn, Groeslon, Caernarfon, yn diolch am ei |

| | | |
|---|---|---|
| | | llythyr yn mynegu penderfyniad y cyfarfod. Mae termau'r penderfyniad wedi eu nodi.[?y.a. Deddf Iaith newydd.] |
| XM9727/30 | 1986 Gorff. 10 | LLYTHYRAD: Copi o 2 lythyr a anfonwyd gan Hafwen Roberts, ysgrifennydd Rhanbarth Arfon, un at Eirlys Davies y Llywydd Cenedlaethol yn talu ei chostau ar ôl ei hymweliad a'r Rhanbarth, a'r llall at Margaret Roberts, y Trysorydd Cenedlaethol yn amgau siec tuag at gronfa atgyweirio ty Merched y Wawr yn Nantgwrtheyrn. |
| XM9727/31 | 1986 | LLYTHYRAU: yn ymwneud â Gwynedd Local Consumer Advisory Committee (LCAC) ac enwebiad Margaret Jones, Madryn, Penygroes i eistedd ar y Pwyllgor ar ran Merched y Wawr Rhanbarth Arfon. |
| XM9727/32 | 1986 | LLYTHYRAU: yn ymwneud ag Eisteddfod yr Urdd Dyffryn Ogwen, Bethesda a'r Eisteddfod Genedlaethol ym Mhorthmadog. |
| XM9727/33 | 1986 Medi 8 | LLYTHYR: Mona Jones, Pen Bwlch Bach, Carmel at Mrs Jean Evans yn hysbysu'r Rhanbarth nad oes modd i Gangen Carmel o Ferched y Wawr gario ymlaen. Maent wedi ei chael yn amhosib i ddenu aelodau newydd. |
| XM9727/34 | 1986 Medi 12 | LLYTHYR: Gwyneth Evans, 23 Pant Lodge, Llanfairpwll at Jean Evans, Ysgrifennydd Rhanbarth Arfon, Merched y Wawr yn diolch iddi am anfon cyhoeddiad pwyllgor rhanbarth Arfon, ond yn anffous ni all fod yn bresennol. Yn dymuno cyfarfod hwylus iddi, ac yn gobeithio cael ei gweld yn y Pwylgor Gwaith. |
| XM9727/35 | 1986 Hyd. 30 | LLYTHYR: Mr J M Penny, Rheolwr Adran Iechyd a Nawdd Cymdeithasol Caernarfon at Mrs Jean Evans, Ysgrifennydd Rhanbarth Arfon, Merched y Wawr yn ateb ei ymholiad ynglyn a'r defnydd o'r Iaith Gymraeg yn y swyddfa. Yn cyflwyno ffigyrau a gwybodaeth. |
| XM9727/36 | 1987 Jan. 6 | LETTER: Janet Holdsworth, Laura Ashley Public Relations Officer, to Jean Evans, Secretary Merched y Wawr Rhanbarth Committee, thanking her for a recent letter |

| | | |
|---|---|---|
| | | and newspaper cutting concerning a Laura Ashley fashion show.<br>Also she notes Jean's suggestion that the label 'Gwynedd yng Nhgymru' could be used on the clothes. Will pass the comment on to the director of garment manufacturing.<br><br><u>Enclosed</u>:<br><br>LETTER: Confirming the booking of Neuadd John Philips, Coleg Normal Bangor for a fashion show and the granting of a temporary licence. |
| XM9727/37 | 1987 Jan. 13 | LYTHYR: Mererid James, y Trefnydd Cenedlaethol at Jean Evans, Ysgrifennydd Rhanbarth Arfon ynglyn a'r ddeiseb iaith yn bennaf. |
| XM9727/38 | 1987 Ion. 20 | LLYTHYR: Mrs M Jones, Llandwrog at Jean Evans, ysg. Rhanbarth Arfon o Ferched y Wawr, ynglyn a Sioe Amaethyddol Gogledd Cymru, Adran y Gegin. Yn mynegu nad yw Merched y Wawr yn cefnogi'r sioe o gwbl.<br><br><u>Amgaewyd</u>:<br><br>LLYTHYR: Gwen Pritchard Jones Cad. Pwyllgor Celf a Chrefft Rhanbarth Arfon yn 1984 yn cwyno ynlgyn a chost cynhyrchu rhaglenni dwyiethog a diffyg cefnogaeth aelodau Merched y Wawr. |
| XM9727/39 | 1987 Ion. 21 | NODYN: Dilys Parry, Bryn Tirion, Rhiwlas at Mrs Jean Evans yn ymddiheuro na fydd cynrychiolaeth o gangen Rhiwlas yn y cyfarfod yng Nghaernarfon. |
| XM9727/40 | 1987 Ion. 22 | LLYTHYR: Eirwen Orwig, Bryn Garedog Uchaf, Waen Wen, Bangor at Mrs Jean Evans yn ymddiheuro na fydd neb o Gangen Tregarth yn bresennol yn y cyfarfod Rhanbarth dydd Sadwrn 24 Ionawr 1987. Yn amgau dau dyddiadur, heb eu gwerthu, ac wedi gofyn i'r Trysorydd anfon arian ymlaen i dalu am y dyddiaduron a werthwyd. |
| XM9727/41 | 1987 Ion. 23 | LLYTHYR: W Elfyn Thomas, Prifathro Ysgol Brynrefail, Llanrug at Mrs Jean Evans, yn gofyn am lenwi'r ffurflen ac anfon |

| | | |
|---|---|---|
| | | y tâl [?am logi neuadd yr ysgol]. |
| XM9727/42 | 1987 Chwef. | LLYTHYR: Mererid James, Trefnydd Cenedlaethol Merched y Wawr at yr holl aelodau, yn eu hatgoffa o amcanion y Mudiad. Rhai canghennau yn cynnal cyfarfodydd Saesneg, ac yn pwysleisio na chaniateir hyn. Apelio am gynrychiolaeth gyson o'r canghennau i Bwyllgorau Rhanbarth a'r Cyngor Cenedlaethol - hyn yn cryfhau'r Mudiad. Yn annog pawb i ddefnyddio'r llyfrau siec dwyiethog ac i'w llenwi yn yr iaith Gymraeg. Yn amgau gwybodaeth i hwyluso'r aelodau i ddefnyddio'r Gymraeg. |
| XM9727/43 | 1987 Chwfr. 5 | LLYTHYR: Eluned Jones, Minafon, Bethesda, Ysgrifennydd Cangen Bethesda o Ferched y Wawr yn ymddiheuro na all y Gangen fod yn bresennol yn y ffug eisteddfod, oherwydd bod digwyddiadau lleol yn torri ar draws . Yn son am gynnig y gangen ynglyn ag ymgyrch i gael darpariaeth gwell ar gyfer profion ar y fron. Yn gobeithio y bydd y cynnig yn cael ei anfon ymlaen i'r Cyngor ym mis Mai. |
| XM9727/44 | 1987 Ebrill 29 | LLYTHYR: Elen Lansdown, 3 Cilgaint Alotan, Penrhosgarnedd, Bangor at Mrs Jean Evans yngylch cyflogi Swyddogion Datblygu i'r Mudiad. Cangen Penrhosgarnedd yn unfrydol o blaid y syniad. Yn rhoi enwau dau berson a fedr roi triniaeth acupuncture yn y Gymraeg ac yn amgau holiaduron yngylch Dysgwyr (nid yw wedi ei amgau). |
| XM9727/45 | 1987 Mehefin 9 | LLYTHYR: Glenys, Waenllys, Llanfyllch at Jean Evans yn diolch am ddeunydd ar gyfer y cylchgrawn, "Y Wawr." |
| XM9727/46 | 1987 Mehefin 20 | LLYTHYR: Nêst Lewis a Delyth Jones, Aberystwyth, at Jean Evans, Rhanbarth Arfon yn diolch iddi am ei chymorth yn hwyluso trefniadau y Cystadlaethau Chwaraeon yn y Drenewydd. |
| XM9727/47 | 1987 Awst 5 | LLYTHYR: Esyllt, Dolwen, 3 Ffordd Iago, Groeslon at Jean Evans yn archebu dauddeg o dyddiaduron ar gyfer cangen y Groeslon. |

| | | |
|---|---|---|
| XM9727/48 | 1987 Awst 14 | LLYTHYR: Gwyneth Williams, Llain yr Ardd, Bethel, Ysgrifennydd Cangen Merched y Wawr, Bethel at Mrs Jean Evans yn ymddiheuro am oedi cyn anfon y ffurflen yn ôl. Os oes rhyw wybodaeth ynglyn â'r Gangen wedi newid fe ddaw i gysylltiad. |
| XM9727/49 | 1987 Awst 19 | LLYTHYR: Meiriona Williams, Afallon, Bontddu at Mrs Margaret Lloyd yn diolch am y siec o £100 oddi wrth Bwyllgor Rhanbarth Arfon tuag at addasu Ty Merched y Wawr yn Nant Gwrtheyrn. Eisioes £2,000 wedi ei godi tuag at yr addasiad. |
| XM9727/50 | 1987 Awst 24 | LLYTHYR: Eluned Jones, Minafon, 2 Ffordd Carneddau, Bethesda at Mrs Jean Evans, yn archebu unarddeg o ddyddiaduron. |
| XM9727/51 | 1987 Medi 11 | LLYTHYR: Merched y Wawr at ysgrifenyddion Canghennau Rhanbarth Arfon yn manylu ar y trefniadau ynglyn a Lobi i'r Ty Cyffredin ar Hydref 25ain, 1987. Rhoi manylion y gost a'r daith. |
| XM9727/52 | 1987 Hydref 5 | LLYTHYR: Barbara Ellis, Hen Gastell, Llanwnda at Mrs M Lloyd yn diolch am y rhodd hael o £100 tuag at eu hymgyrch i godi £1,000 er budd yr Anabl yn Arfon. Ei gobaith yw prynu argraffyddion a 'radio cassette symudol' i Ysgol Dreborth, Bangor, a cyfrifiadur i glwb PHAB Caernarfon. |
| XM9727/53 | 1987 Hydref 6 | LLYTHYR: Mererid James, y Trefnydd Cenedlaethol at Jean Evans, Ysgrifennydd Rhanbarth Arfon ynlgyn a'r cais i gael cynrychiolaeth ar bwyllgorau Parciau Cenedlaethol. Swyddfa Parc Penfro wedi anfon rhai pwyntiau ati. Gobeithio y bydd rhain o gymorth. |
| XM9727/54 | 1987 Hydref 14 | LLYTHYR: Esyllt, Dolwen, 3 Ffordd Iago, Groeslon at Jean Evans yn ymddiheuro nad oedd yn y Pwyllgor Rhanbarth. Hefyd anfon tocynnau yn ôl gan fod Eisteddfod Llên yn Ysgol Dyffryn Nantlle ar yr un noson. |
| XM9727/55 | 1987 Hyd. 30 | COPI LLYTHYR: Mererid James, Trefnydd Cenedlaethol Merched y Wawr, at Ian Grist, Gweinidog yn y Swyddfa Gymreig yn pwyso |

| | | |
|---|---|---|
| | | arno i gychwyn rhaglen sgrinio i archwilio cancr y fron - gofyn am yr un gwasanaeth i ferched Cymru ag sydd ar gael yn Lloegr. |
| XM9727/56 | 1987 Tach. 4 | LLYTHYR: Mererid James, Trefnydd Cenedlaethol Merched y Wawr at Jean Evans, Ysgrifennydd Rhanbarth Arfon o'r Mudiad, yn diolch am y gefnogaeth i'r Lobi yn y Ty Cyffredin. |
| XM9727/57 | 1987 Rhag. 3 | LLYTHYR: Mr D J C Davies, Prif Swyddog Meddygol Gweinyddol Awrdurdod Iechyd Gwynedd, at Jean Evans, Ysgrifennydd Rhanbarth Arfon o Ferched y Wawr yn son am sgrinio cancr y fron. Yn cyhoeddi fod y Swyddfa Gymreig yn bwriadu sefydlu undeb sgrinio cyntaf yng Nghymru erbyn Mawrth 1988, ac ymestyn y gwasanaeth i bob rhan o'r wlad erbyn Mawrth 1990. |
| XM9727/58 | 1987 Tach. 1 | LLYTHYR: Y Swyddfa Gymreig yn gofyn am enwebiadau ar gyfer y Cynghorau Iechyd Cymdeithas, ac yn rhestru amodau. |
| XM9727/59 | 1988 Ion. 23 | LLYTHYR: Gwen Pritchard Jones at Bwyllgor Rhanbarth Arfon yn ymddiswyddo fel Is-drysorydd oherwydd pwysau gwaith. |
| XM9727/60 | 1988 Ion. 31 | LLYTHYR: Penawd, Pwyllgor Chwaraeon Merched y Wawr yn gwahodd canghennau i anfon cynrychiolaeth i'r pwyllgor a gynhelir yn yr Aelwyd, Caernarfon ar Nos Lun, 8 Chwef. 1988 er mwyn trefnu y chwaraeon rhanbarth. |
| XM9727/61 | 1988 Chwef. 12 | LLYTHYR: Rhiannon Jones, Ysgrifennydd Penawd, Pwyllgor Chwaraeon Merched y Wawr yn gosod allan ganllawiau ynglyn a'r Chwaraeon Rhanbarth a gynhelir yng Nghanolfan Hamdden Arfon ar nos Iau, 24 Mawrth 1988.<br><br><u>Cofnodwyd</u>:<br><br>ENWAU y cysylltwyr ym mhob cangen. |
| XM9727/62 | 1988 Chwef. 27 | LLYTHYR: Eluned Jones, Minafon, 3 |

| | | |
|---|---|---|
| | | Ffordd Carneddau, Bethesda, Ysgrifennydd Cangen Bethesda o Ferched y Wawr at Mrs Jean Evans ynglyn a polisi iaith MANWEB yn enwedig yn eu siop ym Mangor. |
| XM9727/63 | 1988 Mawrth 22 | LLYTHYR: Mrs Linda M Griffiths, Glanrhyd, Llanwnda at aelodau Merched y Wawr yn egluro gweithgaredd ynglyn a'r Pwyllgor Anabl. Bwriedir cynnal noson goffi, stondinau cacenau a tombola yng Nghanolfan Waunfawr i helpu 'Antur Waunfawr.' Gofynnir am gefnogaeth yr aelodau a'r canghennau. |
| XM9727/64 | 1988 Mawrth 30 | LLYTHYR: Mererid James, Trefnydd Cenedlaethol at Jean Evans, Ysgrifennydd Rhanbarth Arfon ar nifer o bwyntiau, y ddwy ddrama a'r Ysgol Breswyl ym Mangor, Cynnig Cangen Bethesda, y Jigso Lleol, penwythnos Gregynog. |
| XM9727/65 | 1988 Mawrth 30 | LLYTHYR: Rita Williams, Ysgrifennydd Ffederasiwn Sefydliadau Merched Gwynedd yn estyn croeso i ddwy o ferched y Wawr Arfon i ymuno â hwy yn eu Cyngor y Gwanwyn i'w gynnal yn Ysgol Brynrefail, Llanrug ar Fai 6ed 1988. |
| XM9727/66 | ? Mai 11 | LLYTHYR: Olwen Hills, Ysgrifennydd Cangen Tregarth at Jean Evans, Ygrifennydd Rhanbarth yn ymddiheuro na fydd neb o gangen Tregarth yn y noson ddrama oherwydd fod cymaint o bethau lleol ymlaen yn y dyffryn. Yn anfon cyfraniad tuag at gostau'r noson. |
| XM9727/67 | 1988 Mai 10 | LLYTHYR: Ysgrifennydd a Chyfreithiwr Dwr Cymru at Mrs Margaret Jones, Madryn, Heol Buddug, Penygroes yn trafod Pwyllgor Cyngor Defnyddwyr Gwynedd. Ei thymor fel aelod or Pwyllgor yn dod i ben, ac yn amgau ffurflen iddi lenwi os yw yn dymuno cael ei hystyried am ail dymor. |
| XM9727/68 | 1988 Mai 15 | LLYTHYR: Margaret R Lloyd, Trem y Wawr, Bangor at ?Bethanne yn ymddiheuro na fydd yn llwyddo i orffen ei thymor fel Trysorydd Arfon gan ei bod yn symud i fyw i Abergele. |

| | | |
|---|---|---|
| XM9727/69 | d.d. | GWAHODDIAD: i Bwyllgor Chwaraeon Cenedlaethol yng Ngholeg Llyfrgellwyr Aberystwyth dydd Sadwrn Chwefror 7fed. Gwahodd 2 gynrychiolydd o'r rhanbarth i fod yn bresennol. |
| XM9727/70 | d.d. | NODYN: Sue at Jean yn ymddiheuro am fod cyhyd heb anfon yr arian. Amgau gwybodaeth am Lanelwedd, ac yn atgoffa fod Pwyllgor Celf a Chrefft, Rhanbarth Arfon nos Wener, 17 Gorffennaf. |
| XM9727/71 | d.d. | LLYTHYR: Sue Jones Ysgrifennydd Pwyllgor Celf a Chrefft Merched y Wawr, Rhanbarth Arfon yn roi manylion ynglyn â gweithdy un dydd yng Nhlan Gwna, Caeathro. Thema y diwrnod fydd Noson Calan Gaeaf. |
| XM9727/72 | d.d. | LLYTHYR: Mrs Gweneirys Jones ar ran Pwyllgor Celf a Chrefft Rhanbarth Arfon o Ferched y Wawr. Trefnu cystadleuaeth ar gyfer sioe Llanelwedd. Y testyn fydd 'anrheg o Gymru.' Dewis y goreuon i fynd i lawr i Llanelwedd. |
| XM9727/73 | d.d. | LLYTHYR: Jean Evans, Ysgrifennydd Rhanbarth Arfon o Ferched Arfon o Ferched y Wawr, at Mrs M Jones ynglyn a'r honiad nad oedd aelodau Merched y Wawr yn cefnogi Sioe Amaethyddol Gogledd Cymru. Yn dadlau fod aelodau'r mudiad yn gefnogol i'w sioe.<br>Yn pwysleisio eto pwysleiswyd dwyiethrwydd yn y sioe. |
| XM9727/74 | d.d. | LLYTHYR: Kitty Roberts, Arfryn, 2 Ffordd Eryri, Caernarfon at Jean Evans yn ymddiheuro am fod yn absennol o'r Pwyllgor Rhanbarth, ac yn gofyn am rifau ffôn dosbarthwyr y Wawr. |
| XM9727/75 | d.d. | LLYTHYR: Elen Lansdown, 3 Cilgaint Alotan, Penrhosgarnedd at Jean Evans yn amgau manylion Swyddogion Cangen Merched y Wawr, Penrhosgarnedd (heb eu cynnwys).<br>Yn rhoi archeb am ugain o dyddiaduron. |
| XM9727/76 | d.d. | LLYTHYR: Mrs Jean Evans at Swyddogion |

| | | |
|---|---|---|
| | | y Canghennau yn manylu trefniadau ar gyfer yr wyl Wanwyn ym Mrynrefail. Hefyd enwebiadau ar gyfer swyddogion Rhanbarth. |
| XM9727/77 | d.d. | LLYTHYR: Margaret Môn Griffiths, Coedmor, Penysarn, Amlwch at Mrs Roberts yn rhoi gwybod am ddyddiad cyfarfod Pwyllgor Sir Gwynedd o Ferched y Wawr. |
| XM9727/78 | d.d. | CYLCHLYTHYR: Jean Evans at Ysgrifennyddion y Canghennau yn diolch iddynt am y cymorth a gafodd yn ystod y ddwy flynedd fel Ysgrifennydd Rhanbarth. Dyma ei llythyr olaf fel ysgrifennydd. |
| XM9727/79 | d.d. | CYLCHLYTHYR: Jean Evans at Ysgrifenyddion Canghennau yn cyflwyno taflen wybodaeth ynglyn â gweithgareddau Cenedlaethol (ddim yn amgaeedig). Hefyd dyddiad cynnyrch cartref y Ffug Eisteddfod. |
| XM9727/80 | d.d. | CYLCHLYTHYR: Mererid James, Trefnydd Cenedlaethol Merched y Wawr i Ysgrifenyddion Rhanbarth yn rhoi gwybodaeth ynglyn a'r gystadleuaeth yn Sioe Llanelwedd. Hefyd atgoffa'r Ysgrifenyddion i ddarparu rhestr cyfeiriadau ysgrifenyddion canghennau'r Rhanbarth, a nifer y dyddiaduron hyd eu hangen. |
| XM9727/81 | d.d. | CYLCHLYTHYR: at Arglwyddi, Ty'r Arglwyddi gan aelodau Rhanbarthau Merhed y Wawr yn datgan y pryderon ynlgyn â'r Ddeddf Addysg arfaethiedig a'r perygl i'r Iaith Gymraeg. Yn cynnwys rhestr o Arglwyddi i gysylltu â hwy. |
| XM9727/82 | 1982 | CYLCHLYTHYR: ynglyn â llogi Neuadd y Fyddin yng Nghaernarfon. Gosod allan telerau ac amodau. |
| XM9727/83 | 1986 Hydref 30 | CYLCHLYTHYR: Jean Evans at ei chyd-aelodau yn rhoi gwybodaeth ynglyn â gweithgaredd y Rhanbarth dros y gaeaf. |
| XM9727/84 | 1986-1987 | BWNDEL O GYLCHLYTHYRAU: Jean Evans, Ysgrifenyddes Rhanbarth Arfon o Ferched y Wawr yn rhoi gwybodaeth ynglyn â dyddiad y Pwyllgor Rhanbarth nesaf, ac |

Agenda Pwyllgor Rhanbarth Mehefin 14eg 1987.

| | | |
|---|---|---|
| XM9727/85 | 1987 March | CYLCHLYTHYR: Mererid James, Trefnydd Cenedlaethol Merched y Wawr at yr holl ganghennau. Y Cyngor wedi penderfynnu cefnogi cais Cangen Bethesda am ymgyrch i gael darpariaeth well ar gyfer profion ar y fron. Penderfynnu 1) Trefnu Lobi i'r Ty Cyffredin yn yr Hydref. 2) Gofyn i bob aelod ysgrifennu'n unigol at Edwina Currie, Is-Ysgrifennydd Gwladol dros faterion Iechyd a Nawdd Cymdeithasol. Yn amgau engraifft o lythyr a ellid ei anfon. |
| XM9727/86 | 1987 | CYLCHLYTHYR: Jean Evans yn rhoi gwybodaeth am weithgareddau'r gaeaf, a'r hyn sydd angen i ganghennau eu gwneud. |
| XM9727/87 | 1987 Mawrth 13 | CYLCHLYTHYR: Jean Evans at Ysgrifenyddion a Swyddogion Canghennau yn trafod amryw o bynciau, diolch am lwyddiant y ffug-eisteddfod, yn amgau ffurflen Deddf Iaith i'r aelodau arwyddo, gofyn am sylwadau ynglyn â cyflogi Swyddogion Datblygu i'r Mudiad, unrhyw wybodaeth ynglyn â rhywun sy'n trin Acupuncture yn ddwy-ieithog, yna gweithgareddau Rhanbarth. |
| XM9727/88 | 1986-1988 | BWNDEL: Amrywiol o gylch lythyrau, hysbysiadau rhaglenni oddi wrth Mererid James yn Trefnydd Cenedlaethol at Ysgrifenyddion Rhanbarthau. |
| XM9727/89 | 1988 | CYLCHLYTHYR: Jean Evans. Trefniadau ynglyn â Gwyl Benwythnosol Flynyddol Merched y Wawr. Trefnu i gynnal y penwythnos ym Mangor ac i Rhanbarth Arfon berfformio dwy ddrama un act. Cyfarfod cyntaf ar gyfer ymarfer yn yr Institwt Caernarfon am 7.30, nos Fercher, Chwefror 10fed 1988. |
| XM9727/90 | 1988 Mai | CYLCHLYTHYR: i ganghennau ar wahanol bynciau megis erthygl orau y Wawr, awgrymiadau ar gyfer gweithgareddau cangen, hysbysiad ar gyfer Swyddogion Datblygu Rhan-Amser, a ffurflen archeb ar gyfer papur ysgrifennu ac amlenni Merched |

| | | |
|---|---|---|
| | | y Wawr. |
| XM9727/91 | 1983-1990 | CYLCHLYTHYRAU: Trefnydd Merched y Wawr at y Rhanbarthau dros gyfnod o saith mlynedd. |
| XM9727/92 | 1080-1983 | BWNDEL o lythyrau yn delio a'r pryder o wastraff niwcliar, a sbwriel yn chwarel y Cilgwyn. |
| XM9727/93 | 1983-1989 | BWNDEL O LYTHYRAU ar amrywiaeth o bynciau. |
| XM9727/94 | 1984-1989 | BWNDEL o lythyrau yn ymwneud â 'Chyngor Defnyddwyr Cymru' a pamphled - Cyngor Defnyddwyr Cymru, Adolygiad Blynyddol 1984-85 yn gynwysiedig adroddiad 'Parents and Schools' wedi ei selio ar astudiaeth gan Cyngor Defnyddwyr Cymru a Pwyllgor Cymru'r Cyngor Ysgolion. |
| XM9727/95 | d.d. | BWNDEL o lythyrau yn ymdrin ag amrywiaeth o bynciau o Ddeddf Iaith i Gyfarwyddiadur Cymdeithasau Lleol yn Arfon, i 'Home Start' Arfon, i rhieni maeth i blant sydd mewn gofal yng Nghwynedd, i Telethon '88, i Apel Sganiwr Corff Cyfan Gwynedd, a Cymdeithas Brydeinig y Galon. |
| XM9727/96 | d.d. | BWNDEL o lythyrau yn trafod y pwyllgor rhanbarth nesaf; cynrychiolydd o Arfon ar y Pwyllgor Cenedlaethol i ymddiheuro am fethu a bod yn bresennol; diolch am gymorth i drefnu rhaglen; diolch am rodd ariannol. |
| XM9727/97 | d.d. | PECYN o lythyrau, rhaglenni, pamphledi yn ymwneud â gweithgareddau Rhanbarth Arfon o Ferched y Wawr. Gohebiaeth a gwybodaeth yn ymwneud â'r Rhanbarth a'r Canghennau yn uniongyrchol. |
| XM9727/98 | d.d. | BWNDEL o lythyrau a rhestrau yn ymwneud â'r Iaith Gymraeg, tribiwnlys Bae Colwyn, cyrsiau WLPAN, diffyg Cymraeg gan y W.R.V.S. yn Ysbyty Gwynedd, deddf Iaith newydd. |

| | | |
|---|---|---|
| XM9727/99 | d.d. | BWNDEL o lythyrau yn ymwneud mewn rhyw ffordd ag Iechyd. Ceir gohebiaeth ynlgyn â sefydlu canolfan Cancr yn Ysbyty Gwynedd, yn ogystal ag apwyntiad tri uwch seicolegydd i Awdurdod Iechyd Gwynedd. Crybwyllir hefyd cyfraniad Rhanbarth Arfon o Ferched y Wawr tuag at gael cadair olwyn arbennig i Tony Butterworth sy'n dioddef o'r clefyd distroffi'r cyhyrau. |
| XM9727/100 | 1969 | LLYFR: 'Carolau Hen a Newydd', Trydydd Argraffiad, 'Awn i Fethlehem bawb dan ganu.' |
| XM9727/101 | 1977? | RHAGLEN: Gwyl Werin Merched y Wawr Clwyd a gynhaliwyd yn Neuadd y Dref, Dinbych 13 Mai. Llywydd, Kitty Idwal Jones, Caerwys, nifer o ganeuon gwerin wedi eu cynnwys yn y rhaglen. |
| XM9727/102 | 1979 Gorff. | LLYFRYN: Cyngor Defnyddwyr Cymru, "Ble mae beth yng Ngwynedd?" |
| XM9727/103 | 1983 | PETISIWN: Merched y Wawr ynglyn a Comisiwn ar Iechyd y Meddwl. Yn gefnogol i'r trefniant yn ôl rhanbarthau, ond yn gwrthwynebu cydio Gogledd Cymru â Gogledd Orllewin Lloegr, a gweddil Cymru efo De Lloegr. Dan gerdyn cydnabod derbyn y sylwadau oddi wrth y Swyddfa Gymreig. |
| XM9727/104 | 1984-1987 | BWNDEL o Raglenni Canghennau Merched y Wawr - Rhanbarth Arfon yn nodi eu digwyddiadau dros dymhorau'r gaeaf. |
| XM9727/105 | 1985 Tach. | RECORD: Merched y Wawr sef "Fy Iaith, fy ngwlad." Canwyd gan Gôr Telyn Teilo a cyhoeddwyd gan Gwmni Sain. |
| XM9727/106 | 1986 | LLYFRYN: Cynnyrch Cystadleuaeth Talwrn y Beirdd yn ysgol Breswyl Mudiad Merched y Wawr yn 1986 -yn cynnwys cwpledi, englynion, penillion. |
| XM9727/107 | 1986 | LLYFRYN: "Telynegion y Wawr." Llyfryn o delynegion gan aelodau o Ferched y Wawr. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Cyflwyniad gan Mererid James, y Trefnydd Cenedlaethol. |
| XM9727/108 | 1986 | PAMPHLED: Cyngor Gwlad Gwynedd -"Gwaith a Chyfle," Cynllun Antur Ieuenctid, yn gynwysiedig nodiadau cofnodion pwyllgorau ar y cyd a gynhaliwyd rhwng Merched y Wawr a Cyngor Gwlad Gwynedd. |
| XM9727/109 | 1986-1988 | BWNDEL: enwau a chyfeiriadau swyddogion Canghennau Rhanbarth Arfon. |
| XM9727/110 | 1987-1988 | ADRODDIADAU: o'r Cyngor Iechyd Cymdeithas i Bwyllgor Rhanbarth Merched y Wawr. |
| XM9727/111 | 1987 | FFURFLEN: Cystadleuaeth Chwaraeon Merched y Wawr. Llenwi i mewn enw'r gangen, rhanbarth a'r timau. Rheolau'r gwahanol chwaraeon yn atodiad. |
| XM9727/112 | 1987 | HYSBYSIADAU: Jean Evans ynglyn â gweithgareddau'r Rhanbarth. Cynhelir chwaraeon y Rhanbarth yn y Ganolfan Hamdden yng Nghaernarfon ar Ebrill 2ail. Cynhelir Dydd Agored yng Nghanolfan Waunfawr ar Ebrill 11eg a'r Wyl Wanwyn ym Mhlas Menai, y Felinheli ar Fai 9fed 1987. |
| XM9727/113 | 1987 Feb. 6 | DATGANIAD I'R WASG gan S4C ynglyn a'r ffilm Rhosyn a Rhith. Yn enwi'r safleoedd ble y bydd yn cael ei ddangos, ac yn rhoi rhywfaint o wybodaeth am ei gynnwys. |
| XM9727/114 | 1987 March 6 | BWNDEL O RAGLENNI - Ffug Eisteddfodau Merched y Wawr yn Llanrug a Penrhosgarnedd. |
| XM9727/115 | 1987 Ebrill 2 | CYFARWYDDIADAU: Trefniadau chwaraeon Rhanbarth Arfon o Ferched y Wawr, nos Iau Ebrill 2, 1987 yng Nghanolfan Hamdden Arfon. Cyfarwyddiadau ynglyn â nofio, tenis bwrdd, badminton, pel rwyd, dartiau a dominoes yn llawysgrifen Rhiannon Jones, 80 Cae Gwyn, |

| | | |
|---|---|---|
| | | Caernarfon. |
| XM9727/116 | 1987 Hydref 7 | PROGRAMME: Thirty Third Annual Dinner of the Môn ac Arfon Home Service Insurers held at the Royal Hotel, Caernarfon. Invitation to Glyn and Jean Evans, Merched y Wawr included. |
| XM9727/117 | d.d. [1988] | PECYN: Nifer o nodiadau yn ymdrin â dau lyfr lloffion i'w cyflwyno ar gyfer cystadleuaeth; awgrymiadau ar gyfer enwi'r ty yn y Nant [Nantgwrtheyrn]; sylwadau ynglyn â cyflogi Swyddogion Datblygu i'r Mudiad; Llanwrog angen 4 dyddiadur 1988; Cangen Rhiwlas angen 6 dyddiadur. |
| XM9727/118 | d.d. [1988] | RHAGLEN: Rhaglen Penwythnos ysgol Breswyl Merched y Wawr. Rhestru siaradwyr a telerau. |
| XM9727/119 | 1988 Ebrill 9 | RHGALEN: Ysgol Undydd Cenedlaethol Merched y Wawr a gynhaliwyd ym Mhlas Gregynog. Rhestrir trefn y dydd. |
| XM9727/120 | 1088 Mai 27 | RHAGLEN: Gwyl Wanwyn Merched y Wawr, Rhanbarth Arfon. Cyflwynir dwy ddrama un act sef " I'w gadw yn y Teulu," a "Gwahanu." |
| XM9727/121 | 1988 Medi 5 | PAMPHLED: Cynulliad Merched Cymru/Wales Assembly of Women ynghyd â llythyr yn rhoi gwybodaeth am eu cyfarfod. |
| XM9727/122 | 1990 | PAPURAU yn ymwneud a Cwis Llyfrau Merched y Wawr; cyfarwyddiadau i'r beirniaid a'r cwestiynau eu hunian. |
| XM9727/123 | 1990 Medi 7 | PECYN amrywiol yn ymwneud â Heddlu Gogledd Cymru, yn cynnwys pamphledyn 'Gwarchod Cymdogol,' a Llawlyfr Heddlu Gogledd Cymru. |
| XM9727/124 | 1985-1900 | RHESTRAU o swyddogion Merched y Wawr yn Genedlaethol a Rhanbarthol. Swyddogion canghennau yn ogsytal. |
| XM9727/125 | d.d. | LLYFR: Hen Faledi Cymreig. 'Old Welsh |

| | | |
|---|---|---|
| | | Ballads.' Golygwyd y Gymraeg gan T. Gwynn Jones a'r Saesneg gan Sir H Idris Bell. |
| XM9727/126 | d.d | LLYFR: 'Difyr-Gerddi Cymreig,' 'Popular Welsh Songs' wedi eu dewis a'u golygu gan T. Gwynn Jones. |
| XM9727/127 | d.d | LLYFR CANU NEWYDD i ysgolion a deunydd cyffredinol - Rhan 1. wedi ei stampio ag arwydd Merched y Wawr, Llanllechid. Cyhoeddwyd gan Wasg Prifysgol Cymru. |
| XM9727/128 | d.d. | LLYFR: 'Welsh Folk Songs' (Alawon Gwerin Cymru) gan J. Lloyd Williams a Llew Tegid. |
| XM9727/129 | d.d. | LLYFR: 'Welsh Folk Songs' (Alawon Gwerin Cymru) gan J. Lloyd Williams a Llew Tegid. |
| XM9727/130 | d.d. | LLYFR 'Welsh Folk Songs' -(Alawon Gwerin Cymru) gan J. Lloyd Williams a Llew Tegid. Rhan I |
| XM9727/131 | d.d. | FY IAITH FY NGWLAD - Cân Mudiad Merched y Wawr - taflen Hen Nodiant, llun ar y clawr. Cyfansoddwyd y dôn gan Elfed Owen (Talysarn) a'r geiriau gan D. Jacob Davies. |
| XM9727/132 | d.d. | LLYFRYN: "Penwythnosau i Ddysgwyr" - rhestr o ffermdai a gwestai sydd yn cynnig gwyliau Cymraeg i grwpiau o ddysgwyr. Disgrifiad byr a cyfleusterau a gynigir a'r gost. |
| XM9727/133 | d.d. | TAFLEN: Cyhoeddwyd gan Mudiad Merched y Wawr - penawd, - 'GALL CANCR Y FRON LADD' yn annog rhai i ymuno ar y daith i Lundain i'r Lobi i gael gwell darpariaeth prawf bron. |
| XM9727/134 | d.d. | PAMPHLED: 'Arweiniad i Archwilio'ch bronnau.' Canllawiau i ferched archwilio eu bronnau yn rheolaidd, cyhoeddwyd gan y Cyngor Addysg Iechyd. |

| | | |
|---|---|---|
| XM9727/135 | d.d. | PAMPHLED: 'Archwiliadau Iechyd di-dal i fenywod.' Gwybodaeth ynlgyn ag uned symudol Tenovus. Cyhoeddwyd gan Tenovus, 11 Heol Eglwys Newydd, Caerdydd. |
| XM9727/136 | d.d. | TAFLEN: Cynllun Gwobrwyo Cymunedol y Gymdeithas Gydweithredol - "Pobl sy'n Gofalu." Gofyn am wybodaeth am grwp lleol neu gymdeithas wirfoddol sy'n gwneud gwaith defnyddiol yn y gymuned. Cynigir gwobrau. |
| XM9727/137 | d.d | TAFLEN: Merched y Wawr, Is-bwyllgor Cenedlaethol yr Anabl. Cystadleuaeth Cynllunio Cerdyn Nadolig, manylion [dwy dudalen]. |
| XM9727/138 | d.d. | HYSBYSEB: Margaret Môn Griffiths ynglyn â Gwyl Wanwyn, Gwynedd ym Mhlas Menai, Y Felinheli ar ddydd Sadwrn Mai 9fed. Testyn, "Yr Awyr Iach." |
| XM9727/139 | d.d. | CANLLAWIAU ar gyfer rhaglenni i Ganghennau Merched y Wawr dros y gaeaf. |
| XM9727/140 | d.d | BEIRNIADAETH: Llyfrau Lloffa Canghennau Arfon o Ferched y Wawr. |
| XM9727/141 | d.d. | RHESTR enwau a chyfeiriadau ysgrifenyddion Rhanbarth Arfon. |
| XM9727/142 | d.d. | PAMPHLED: 'Deddf Iaith Newydd' a gyhoeddwyd gan Gymdeithas yr Iaith. Rhai pwyntiau dros fod o blaid Deddf Iaith Newydd.<br><u>Pamphled dwyieithog</u> |
| XM9727/143 | d.d. | LLYFRYN: 'Dechreuad Newydd' sef llawlyfr i fenywod mewn ardaloedd gwledig. Canllawiau i ferched sydd a'i bryd ar ddychwelyd i weithio. Cyhoeddwyd gan Antur Teifi. |
| XM9727/144 | d.d. | RHESTR: Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol y Merched, ei swyddfeydd yng |

| | | |
|---|---|---|
| | | Nhgymru fesul sir. |
| XM9727/145 | d.d. | HYSBYSEB: Canolfan Cynghori yn annog pobl i gynnig cymorth yn wirfoddol yn y swyddfeydd. |
| XM9727/146 | d.d. | PAMPHLED APÊL: Arian ar gyfer cartref merched yn Madagascar. |
| XM9727/147 | d.d | BWNDEL o gyfansoddiadau ar gyfer Eisteddfodau Merched y Wawr, yn barodiau, diarhebion cyfoes a llythyrau caru. |
| XM9727/148 | 1980 Jan. 29 | LETTER: Peter Dean, Assistant Director Canolfan Cymreig Materion Rhyngwladol, Welsh Centre for International Affairs to Mrs Eleri E. Morgan, Trysorydd, Rhanbarth Arfon o Ferched y Wawr thanking her for the generous contribution towards International Year of the Child, Lesotho Campaign. |